

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL DIWYGIEDIG BIL AWDURDODAU AFONYDD A DRAENIO TIR

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a bod modd cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, neu sy'n addasu'r cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw.
2. Cafodd Bil Awdurdodau Afonydd a Draenio Tir 2018 (y "Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Mawrth 2018. Mae'r Bil ar gael yn:

[Bill documents — Rivers Authorities and Land Drainage Bill 2017-19 — UK Parliament](#)

3. Dyma fersiwn diwygiedig o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 15 Mawrth 2019. Cafodd yr asesiad blaenorol o'r Bil ei ailystyried yn dilyn newid i ddulliau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Cymru o safbwynt ystyried a yw'n ofynnol cael cydsyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer darpariaethau ym Miliâu'r DU. Roedd y Memorandwm blaenorol yn ceisio cydsyniad ar gyfer Cymal 2 a Chymal 4 y Bil, ond bydd y fersiwn diwygiedig hefyd yn ceisio cydsyniad ar gyfer Cymal 3 a Chymal 5. Caiff y darpariaethau hyn eu hamlinellu isod.

Amcan(ion) y Polisi

4. Mae'r Bil yn cynnwys dau amcan polisi. Bydd y cyntaf, sy'n berthnasol i Loegr yn unig, yn rhoi pwerau i Ysgrifennydd Gwladol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) sefydlu cyrff newydd a elwir yn "Awdurdodau Afonydd". Nid yw hyn yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol.
5. Yr ail, a fydd yn berthnasol i Gymru, yw mynd i'r afael â rhwystr presennol o gynnydd mewn treuliau rhai Byrddau Draenio Mewnol dan Ddeddf Draenio Tir 1991.

Crynodeb y Bil

6. Noddir y Bil Aelod Preifat hwn gan David Warburton, ac mae'n cael ei gefnogi gan Defra.
7. Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau ynghylch Awdurdodau Afonydd yn Lloegr, ac yn gwneud darpariaeth ynghylch treuliau Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru a Lloegr.
8. Codir incwm drwy ardollau arbennig a chyfraddau draenio er mwyn talu am wariant Byrddau Draenio Mewnol a Rhanbarthau Draenio Mewnol. Pennir rhaniad yr incwm hwnnw gan werth blynyddol tir amaethyddol

(cyfraddau draenio) a thir nad yw'n amaethyddol (ardollau arbennig), gan ddefnyddio data prisio 1989 – 1992, ond fe addasir y data yn ôl newidiadau mewn defnydd y tir ym mhob blwyddyn ariannol.

9. Mae gwerth tir mewn Rhanbarth Draenio Mewnol yn cael ei gyfrifo yn unol â'r darpariaethau yn adran 37 (2)-(5) Deddf Draenio Tir 1991 ("Deddf 1991"). Mae tir yn cael ei brisio'n wahanol, gan ddibynnu ar y math o dir; "tir amaethyddol" (a elwir yn "eiddo trethadwy" yn y ddeddfwriaeth) a "tir nad yw'n amaethyddol".
10. Gwnaeth adran 83 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddiwygiadau i Ddeddf 1991 mewn perthynas â phrisio tir nad yw'n amaethyddol, at ddibenion cyfrifo cyfraddau draenio.
11. Er mwyn gwneud y broses gyfrifo yn ymarferol, mae angen rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau tebyg mewn perthynas â thir amaethyddol, fel y darperir iddynt yn adran 83 mewn perthynas â thir nad yw'n amaethyddol.
12. Mae angen diwygio a diweddarau'r fethodoleg o gyfrifo'r rhaniad incwm rhwng ardollau arbennig a chyfraddau draenio, a bydd y Bil hwn yn gwneud hynny.
13. Mae'r Bil hefyd yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol sefydlu cyrff newydd o'r enw "Awdurdodau Afonydd" yn Lloegr.

Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

14. Mae Cymal 2 yn diwygio adran 37 Deddf Draenio Tir 1991 i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ar gyfer darparu gwerth 'tir arall' mewn Ardal Draenio Mewnol yn Lloegr, i'w pennu yn unol â'r rheoliadau (yn debyg i'r rhai yn adran 83 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ("Deddf 2016"). Mae Cymal 2 hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddarpariaethau eraill yn Neddf 1991 o ganlyniad i'r newidiadau hyn, yn ogystal â gwneud diwygiadau canlyniadol i adran 83 Deddf 2016. Mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi diffiniadau sy'n cael eu defnyddio mewn perthynas â Chymal 4.
15. Mae Cymal 3 yn mewnosod tair darpariaeth newydd (adrannau 37A-C) yn Neddf Draenio Tir 1991 mewn perthynas â chaniatâd i swyddog Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ddatgelu gwybodaeth am gyllid a thollau i 'person cymwys' (sy'n cynnwys unigolion a chyrrff, gan gynnwys Byrddau Draenio Mewnol ar gyfer rhai dibenion.

Mae Adran 37A yn rhoi'r pŵer i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ddatgelu gwybodaeth am gyllid a thollau ac i'r person cymwys gadw a defnyddio'r wybodaeth at ddiben cymwys. Mae hefyd yn pennu diffiniad ar gyfer 'person cymwys' a 'diben cymwys'. Mae'r term 'person cymwys' yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a pherson sydd wedi'i awdurdodi i arfer unrhyw swyddogaeth ar eu rhan, a Gweinidogion Cymru. Diffinnir 'diben

cymwys' fel caniatáu i berson cymwys gyflawni'r swyddogaethau o dan Benodau 1 a 2 o Ran IV o Ddeddf Draenio Tir 1991 (sy'n cynnwys darpariaethau ariannol) neu adran 75 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, sy'n cynnwys y sefyllfa lle nad oes gan gorff unrhyw bŵer i osod ardoll ar fwrdd draenio, neu y mae'i bŵer i wneud hynny wedi'i addasu.

Caiff yr awdurdod i wneud rheoliadau er mwyn diwygio pwy sy'n berson cymwys neu beth yw diben cymwys ei roi i Weinidogion Cymru.

Mae Adran 37B yn pennu'r amgylchiadau penodol lle y caniateir datgelu o hynny ymlaen wybodaeth am gyllid a thollau, a phryd y caiff gwybodaeth o'r fath ei chadw a'i defnyddio. Mae adran newydd 37B(4) yn ei gwneud hi'n drosedd i ddatgelu gwybodaeth am gyllid a thollau mewn perthynas â pherson y mae ei hunaniaeth wedi'i phennu yn y datgeliad neu y mae modd dod i gasgliad ynghylch pwy yw ef neu hi ar ei sail, a chaiff cosbau troseddol am y drosedd honno eu pennu o dan adran 37B(6).

Mae Adran 37C yn cynnwys darpariaeth mewn perthynas â datgelu gwybodaeth ynghylch rhai materion cyfreithiol eraill a deddfwriaeth, gan gynnwys rhwymedigaethau hyder, deddfwriaeth diogelu data, Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

16. Mae Cymal 4 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n cynnwys methodoleg amgen ar gyfer prisio 'tir amaethyddol' (mewn perthynas â Byrddau Draenio Mewnol Cymru a Byrddau Draenio Mewnol Lloegr). Byddai'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn debyg i'r pŵer gwneud rheoliadau sydd wedi ei gynnwys yn adran 37 mewn perthynas â 'thir arall'. Mae Cymal 4 hefyd yn cynnwys darpariaethau canlyniadol.
17. Mae Cymal 5 hwn yn cynnwys pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud diwygiadau canlyniadol drwy reoliadau, ac a allai ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfu. Mae'n rhaid i reoliadau sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol gael eu gwneud o dan y weithdrefn gadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys offerynnau statudol a deddfwriaeth sylfaenol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'r Ddeddf hon.
18. Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn, am eu bod nhw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn unol â Chanllawiau Llywodraeth y DU ar Ddatganoli dylai unrhyw ofyniad am gydsyniad neu ymgynghoriad a osodir o dan baragraffau 8, 10 neu 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru gael ei anwybyddu wrth i gymhwysedd deddfwriaethol gael ei ddadansoddi at ddiben Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

Rhesymau dros ddarparu hyn i Gymru yn y Bil Awdurdodau Afonydd a Draenio Tir

19. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer unrhyw newidiadau deddfwriaethol, ac mae mynd â'r darpariaethau hyn ymlaen yn y Bil hwn i Aelodau Preifat y DU yn rhoi cyfle i gywiro'r mater hwn mewn modd cyson yng Nghymru a Lloegr.
20. Cyflwynwyd addasiad i Ddeddf Draenio Tir 1991 yn adran 83 Deddf Amgylchedd 2016. Fodd bynnag, dim ond rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r fethodoleg ar gyfer tir nad yw'n amaethyddol y mae'r darpariaethau hyn, ac nid ar gyfer tir amaethyddol. Nawr, rydym angen mynd i'r afael â'r mater hwn ar gyfer tir amaethyddol a thir nad yw'n amaethyddol fel ei gilydd, a'r deddfwriaeth hon yw'r ffordd i wneud hynny.
21. Mae'r newidiadau hyn yn bwysig oherwydd hebddynt, ni all y Byrddau Draenio Mewnol, sef Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru, gasglu'r incwm cywir.

Goblygiadau ariannol

22. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru os yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydsynio i roi'r darpariaethau hyn i Gymru.

Casgliad

23. Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol i ymdrin â'r darpariaethau yn y Bil DU hwn, am ei fod yn cynrychioli'r cyfrwng deddfwriaethol sydd fwyaf ymarferol a chymesur i alluogi i'r darpariaethau hyn fod yn gymwys i Gymru cyn gynted â phosibl.

Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Ebrill 2019